

Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Claire Morgan
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru
Rhif Ffôn / Tel No:	029 2044 6446
Dyddiad / Date:	31 Hydref 2021
Pwnc / Subject:	Trefniadau asesu: is-ddeddfwriaeth yn deillio o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Ymateb

Mae adborth manwl Estyn ar gael isod, ond os byddai'n fuddiol trafod yr adborth yn fanylach, cysylltwch â ni i drefnu.

Cyflwyniad

Yn gyffredinol, mae'r ymgynghoriad yn glir o ran ei ystyr a'i eiriad, er bod yna ychydig o feysydd lle mae angen mwy o eglurder. Mae Estyn yn croesawu symudiadau Llywodraeth Cymru i sicrhau mai ffocws asesu yw cynorthwyo pob dysgwr unigol i wneud cynnydd effeithiol.

Mae'r ymgynghoriad yn nodi bod trefniadau asesu yn cael eu disgrifio ar 'wyneb Deddf 2021 fel 'trefniadau ar gyfer asesu cynnydd dysgwyr unigol yn erbyn cwricwlwm perthnasol, y camau nesaf yn eu cynnydd, a'r addysgu a dysgu sydd eu hangen i symud ymlaen i'r cam nesaf.' Bydd y neges fuddiol hon am ddiben asesu o dan y Cwricwlwm i Gymru yn helpu rhoi cyfarwyddyd clir i ysgolion a lleoliadau wrth benderfynu ar drefniadau asesu. Rydym yn meddwl ei bod yn briodol ac yn realistig gofyn i ysgolion a lleoliadau gynnal asesiad dechreuol. Rydym wedi nodi ychydig o feysydd yn yr adran hon y mae angen eu hegluro.

Rydym yn cydnabod y symudiadau cadarnhaol o fewn canllawiau i sicrhau bod ysgolion yn datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd, ond wedi nodi ychydig o bwyntiau sydd angen eu hegluro ymhellach. Rydym yn croesawu ymdrech Llywodraeth Cymru i sicrhau bod asesu'n cael ei weld yn rhan annatod o ddysgu ac addysgu, ac yn cefnogi cynnydd effeithiol gan ddysgwyr. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod bod hwn yn faes lle mae angen mwy o gymorth ac arweiniad ar arweinwyr ac ymarferwyr i sicrhau bod hyn yn cael ei wireddu.

Rydym yn cefnogi'n llwyr nod Llywodraeth Cymru i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cynorthwyo'n effeithiol wrth iddynt bontio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Hefyd, rydym yn cydnabod ac yn cefnogi'n llawn y nod i sicrhau bod cynnydd mewn dysgu ac addysgu yn cael ei ddatblygu a'i gynnal, fel nad yw cynnydd dysgwyr yn cael ei rwystro yn y cyswllt hwn yn eu haddysg. Fodd bynnag, rydym yn nodi ychydig iawn o faterion yn y cynigion presennol.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd datblygu a chynnal perthnasoedd cadarnhaol gyda rhieni a gofaluwr ac yn rhoi cefnogaeth lawn i symudiadau Llywodraeth Cymru i gefnogi 'cyfathrebu dwy ffordd' rhwng yr ysgol a'r cartref. Fodd bynnag, nid yw'r adran hon ar adrodd bob amser yn ddigon clir.

I gynnal y ffocws buddiol hwn ar asesu, rydym yn ansicr ynghylch mantais cynnwys ystod o faterion ac arferion ehangach mewn 'trefniadau asesu', fel adrodd i rieni a phontio. Er bod y naill a'r llall o'r arferion hyn yn elwa ar y ffaith fod gan ysgolion ddealltwriaeth gref o gryfderau dysgwyr a'u meysydd i'w datblygu, nid ydynt yn rhan o asesu yn uniongyrchol. Gallai eu gosod o fewn yr un canllawiau gyfrannu ymhellach at gamddealltwriaeth arweinwyr ac ymarferwyr yn y maes pwysig hwn.

Credwn fod angen i unrhyw ganllawiau a gyflwynir i gefnogi deddfwriaeth asesu fod yn gryno, yn glir a bod iddynt ffocws, gydag enghreifftiau, lle bo'n briodol.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiwn 1 – Wrth ymateb i'r ymgynghoriad, beth yw eich prif rôl?

Dysgwr	<input type="checkbox"/>	Rhiant neu ofalwr	<input type="checkbox"/>
Athro	<input type="checkbox"/>	Llywodraethwr	<input type="checkbox"/>
Ymarferwr	<input type="checkbox"/>	Ymgynghorydd her	<input type="checkbox"/>
Uwch arweinydd	<input type="checkbox"/>	Swyddog gwella ysgolion	<input type="checkbox"/>
Pennaeth	<input type="checkbox"/>	Arolygydd	<input checked="" type="checkbox"/>
Pennaeth / is-bennaeth	<input type="checkbox"/>	Arall (nodwch):	<input type="checkbox"/>

Cwestiwn 2 – O ba leoliad neu sefydliad ydych chi'n ymateb?

Lleoliad meithrin a gynhelir	<input type="checkbox"/>	Corff llywodraethol	<input type="checkbox"/>
Lleoliad meithrin nas cynhelir a ariennir		Consortiwm rhanbarthol	<input type="checkbox"/>
Ysgol gynradd	<input type="checkbox"/>	Awdurdod lleol	<input type="checkbox"/>
Ysgol uwchradd	<input type="checkbox"/>	Darparwr hyfforddiant preifat	<input type="checkbox"/>
Ysgol ganol	<input type="checkbox"/>	Trydydd sector	<input type="checkbox"/>
Uned cyfeirio disgyblion (UCD)	<input type="checkbox"/>	Llywodraeth	<input type="checkbox"/>
Ysgol arbennig	<input type="checkbox"/>	Sefydliad dyfarnu	<input type="checkbox"/>
Coleg addysg bellach	<input type="checkbox"/>	Undeb athrawon	<input type="checkbox"/>
Darparwr hyfforddiant preifat	<input type="checkbox"/>	Corff rheoleiddio (yn cynnwys Arolygiaeth)	<input type="checkbox"/>
Dysgu oedolion yn y gymuned	<input type="checkbox"/>	Arall (nodwch): Estyn	<input checked="" type="checkbox"/>

Cwestiwn 3 – Ydych chi'n darparu adborth ar ran sefydliad neu grŵp?

Ydw	✓	Nac ydw	□
-----	---	---------	---

Os 'ydw', nodwch:

Estyn – Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Trefniadau asesu

Yn gyntaf, hoffem archwilio eich barn ar y dyletswyddau a'r disgwyliadau y mae'r cynigion yn eu rhoi ar leoliadau ac ysgolion i wneud, gweithredu ac adolygu trefniadau asesu. Gellir dod o hyd i'r cynigion sy'n amgylchynu Adran 56(1) ar dudalennau 4 i 10 y ddogfen ymgynghori.

Cwestiwn 4 – A yw'r disgwyliadau a osodir ar leoliadau ac ysgolion tuag at drefniadau asesu yn glir?

Aneglur iawn	Ychydig yn aneglur	Ddim yn glir nac yn aneglur	Ychydig yn glir	Clir iawn
□	□	□	✓	□

Esboniwch eich ateb:

Ar y cyfan, mae'r ymgynghoriad yn glir o ran ei ystyr a'i eiriad, er bod yna ychydig o feysydd lle mae angen mwy o eglurder.

Mae 4.1 yn nodi 'y bydd y trefniadau presennol yn dal i fod mewn grym i'r rhai sy'n parhau i astudio'r cwricwlwm presennol'. Yn sgil cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ar 6 Gorffennaf sy'n rhoi 'hyblygrwydd ychwanegol' ynglŷn â gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer dysgwyr ym Mlwyddyn 7, nid yw'r canllawiau'n glir am y disgwyliad ar ysgolion ar gyfer dysgwyr ym Mlwyddyn 7 yn ystod blwyddyn academaidd 2022-2023.

4.4 a + b. O'r ddau bwynt bwled hyn, nid yw'n glir p'un ai pennaeth neu gorff llywodraethol ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir sydd â chyfrifoldeb am drefniadau asesu. Yn y paragraff diweddarach (4.9), mae'n ymddangos mai dyletswydd y pennaeth ydyw, ond yn 4.12, mae'n nodi eto bod y naill a'r llall ohonynt yn gyfrifol.

4.4 c. Mae angen i'r canllawiau fod yn gliriach ynglŷn â phwy fydd yn gyfrifol am drefniadau asesu mewn lleoliad nas cynhelir a ariennir. Nid yw'r term 'darparwr' yn ddigon penodol ac mae'n gadael diffyg eglurder ynghylch pwy sydd â chyfrifoldeb am y trefniadau asesu. Er enghraifft, mewn lleoliad a berchnogir yn breifat, ai cyfrifoldeb y perchennog yw hyn, yr unigolyn cyfrifol neu arweinydd y lleoliad?

4.4 d + e. Mae'r ddau bwynt bwled hyn yn golygu nad yw'r canllawiau'n glir ynghylch p'un ai'r athro sydd â gofal neu gorff llywodraethol uned cyfeirio disgyblion sydd â'r cyfrifoldeb am drefniadau asesu mewn UCD. Mae'n ymddangos bod paragraff 4.25 yn gosod y

ddyletswydd hon yn gyfan gwbl ar yr athro sydd â gofal. Fodd bynnag, mae 4.24 yn crybwyll y naill a'r llall.
 Mae 4.24 yn cynnwys testun mewn cromfachau sy'n nodi bod y Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar bwyllgor rheoli, 'os oes un'. Gan fod pwyllgorau rheoli yn statudol ar gyfer UC'Dau, gallai cynnwys y testun ychwanegol hwn achosi dryswch.

Cwestiwn 5 – I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd y dyletswyddau a'r disgwyliadau a osodir ar leoliadau ac ysgolion yn cefnogi cynnydd dysgwyr yn effeithiol, yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru?

Anghytuno'n gryf	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Cytuno	Cytuno'n gryf
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	✓

Esboniwch eich ateb:

Rydym yn croesawu symudiadau Llywodraeth Cymru i sicrhau mai ffocws asesu yw cynorthwyo pob dysgwr unigol i wneud cynnydd effeithiol. Mae'r ymgynghoriad yn nodi bod trefniadau asesu yn cael eu disgrifio ar 'wyneb Deddf 2021 fel 'trefniadau ar gyfer asesu cynnydd dysgwyr unigol yn erbyn cwricwlwm perthnasol, y camau nesaf yn eu cynnydd, a'r addysgu a dysgu sydd eu hangen i symud ymlaen i'r cam nesaf.' Bydd y neges glir hon am ddiben asesu o dan y Cwricwlwm i Gymru yn helpu rhoi cyfarwyddyd clir i ysgolion a lleoliadau wrth benderfynu ar drefniadau asesu.

Bydd sicrhau bod canllawiau'n pwysleisio pwyntiau, fel y rhai a nodwyd yn 4.7 a 4.8, yn parhau i helpu sicrhau ffocws mewn trefniadau asesu er budd dysgwyr.

Mae 4.11 yn pwysleisio'r pwynt pwysig bod 'angen ystyried a thrafod trefniadau asesu ar yr un pryd â'r trafodaethau ynglŷn â dylunio'r cwricwlwm ei hun'. Dylai hyn barhau i fod yn glir mewn canllawiau i bwysleisio'r pwynt nad yw asesu'n dod ar ôl dysgu, ond ei fod yn rhan hanfodol o ddysgu ac addysgu.

4.15 Er bod y paragraff hwn yn nodi'n ddefnyddiol bwysigrwydd y cod cynnydd wrth helpu ysgolion i ddeall p'un a yw gwahanol grwpiau o ddysgwyr yn gwneud cynnydd, byddai'n fuddiol pwysleisio y dylai'r trefniadau hyn helpu ysgolion i nodi p'un a yw 'unigolion' yn gwneud y cynnydd hwn hefyd.

Cwestiwn 6 – Wrth ymateb i'r dyletswyddau a'r disgwyliadau o amgylch asesu, a oes yna unrhyw ystyriaethau neu heriau ymarferol y dylid eu hadlewyrchu yn y cynigion, yn eich barn chi?

4.9. Mae'r paragraff hwn yn gosod dyletswydd ar y pennaeth i wneud trefniadau asesu ar gyfer dysgwyr yr ysgol, sef bod rhaid iddynt 'asesu'r cynnydd a wnaed gan ddysgwyr o ran y cwricwlwm a fabwysiadwyd, y camau nesaf yn eu cynnydd a'r addysgu a'r dysgu sydd eu hangen i wneud y cynnydd hwnnw.' Rhaid cydnabod y bydd angen dysgu proffesiynol a chymorth sylweddol ar y strategaethau hyn er mwyn i ysgolion ac ymarferwyr sicrhau

bod trefniadau addysgu ac asesu o ansawdd uchel yn cael eu hymgorffori a'u defnyddio'n effeithiol.

4.16 Mae'r adran hon yn nodi y dylid defnyddio asesu i 'nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yng nghwricwlwm yr ysgol a'i hymarfer o ddydd i ddydd, gan gynnwys ystyried sut mae anghenion dysgwyr fel unigolion wedi cael eu diwallu'. Aiff ymlaen i gydnabod bod hyn 'yn fodd i ysgolion sicrhau bod eu cwricwlwm, a'r dysgu a'r addysgu, yn helpu i godi safonau'. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bwysig fod unrhyw ganllawiau yn pwysleisio pwysigrwydd canolbwyntio ar ansawdd yr addysgu fel elfen hanfodol o wella ysgolion. Rhaid i welliannau mewn addysgu fynd law yn llaw â chyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru os ydym ni am sicrhau ein bod yn codi safonau ar gyfer pob dysgwr.

4.16. Mae'r paragraff hwn yn nodi y gall asesu fod yn rhan ddefnyddiol o broses hunanwerthuso a gwelliant parhaus ysgol. Fodd bynnag, gallai gyflwyno heriau. Er ei bod yn bwysig fod deilliannau asesu yn cyfrannu at hunanwerthuso, mae perygl y gallai'r egwyddor hon ysgogi arferion di-fudd, er enghraifft ysgolion yn ceisio creu data diangen o'u hasesiadau o ddysgwyr. Er enghraifft, gallent geisio cyfrif egwyddorion cynnydd neu ddisgrifiadau dysgu i greu data rhifiadol mewn ymgais i ddangos bod disgyblion yn gwneud 'cynnydd'. Os oes gwybodaeth am safonau a chynnydd yn cael ei defnyddio'n dda, gall hyn gyfrannu'n effeithiol at brosesau hunanwerthuso. Rhaid i arweinwyr ysgol ystyried asesu yng nghyd-destun helpu plant i wella, yn hytrach na cheisio 'profi' bod dysgwyr yn gwneud cynnydd ar gyfer atebolrwydd allanol.

Mae 4.32 a 4.34 yn nodi 'na ddylai ysgolion ymgymryd â gweithgareddau asesu penodol ym mhob cam cynnydd i lunio barn am gynnydd dysgwr ar adeg neu oedran penodol' ac 'ni fydd y rheoliadau ynglŷn ag asesu yn ei gwneud yn ofynnol llunio barn ar unrhyw adeg benodol nac mewn perthynas ag unrhyw lefelau'. Dylai canllawiau fod yn glir na ddylai unrhyw gorff allanol ofyn i ysgolion am y wybodaeth hon.

Mae 4.33 yn nodi 'Ni ddylai ysgolion geisio rhannu disgrifiadau dysgu yn gyfres o feini prawf asesu sefydlog a ddefnyddir fel rhestr dicio gan nad yw hyn yn eu helpu i ddeall a yw dysgwyr yn gwneud cynnydd ystyrion'. Mae hyn yn arweiniad buddiol a dylai aros yn y canllawiau.

Er bod dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon a staff ysgolion yn hanfodol i sicrhau bod arferion asesu effeithiol yn gwella dysgu, bydd dysgu proffesiynol ar gyfer staff a swyddogion cymorth rhanbarthol yn bwysig hefyd i sicrhau eu bod yn gwneud eu rhan yn bwrw ymlaen â'r diwygiadau hyn yn y modd a amlinellir mewn canllawiau.

Mae'r cynigion yn cynnwys darpariaethau o amgylch asesiadau dechreuol hefyd. Mae'r rhain yn ceisio meithrin dealltwriaeth o'r dysgwr, a dylid eu cynnal pan gaiff ei gofrestru i ddechrau, neu'n dechrau mewn lleoliad neu ysgol. Gellir dod o hyd i fanylion am y cynigion sy'n amgylchynu asesiadau dechreuol ar dudalen 10 y ddogfen ymgynghori.

Cwestiwn 7 – A yw'r ddyletswydd a osodir ar leoliadau ac ysgolion i gynnal asesiad dechreuol yn briodol a realistig?

Rydym yn meddwl ei bod yn briodol a realistig gofyn i ysgolion a lleoliadau gynnal asesiad dechreuol. Rydym wedi nodi ychydig o feysydd yn yr adran hon sydd angen eu hegluro.

4.45 b. Dylai ysgolion allu derbyn asesiad a wneir gan leoliad neu ysgol arall pan fydd yn cyd-fynd â gweithdrefnau asesu'r ysgol ei hun. Er enghraifft, os yw dysgwyr yn y lleoliad fel arfer yn trosglwyddo i'r ysgol.

4.45 c. Nid ydym yn glir a yw'r pwynt hwn yn golygu bod gofyniad i ailadrodd yr asesiad os cafodd ei wneud yn y feithrinfa yn yr un ysgol.

4.45 f. Mae ychydig o ysgolion uwchradd yn ariannu dysgwyr i fynychu darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ar gyfer medrau ymarferol. Gallai gofyn iddynt asesu pob dysgwr pan fydd yn dechrau achosi anhawster i'r darparwyr hyn.

4.45 g. Byddai'n fuddiol egluro yn y frawddeg hon y dylid cynnal asesiad wedi iddynt ddechreio yn barhaol o leoliad addysg heblaw yn yr ysgol neu UCD.

4.47.

- Mae'r ymgynghoriad yn amlinellu'r defnydd posibl o 'ymagwedd grynodol' at asesu fel ffordd o asesu dysgwyr pan fyddant yn dechrau. Nid yw'n glir beth mae hyn yn ei olygu. Fodd bynnag, os yw hyn yn cyfeirio at 'brofi', fel profion ar bapur, yna nid yw hyn yn briodol ar gyfer dysgwyr ifanc pan fyddant yn dechrau yn y dosbarth meithrin.
- Pan fydd yr ymgynghoriad yn nodi asesu 'medrau rhifedd a llythrennedd' pan fydd dysgwyr yn dechrau, mae angen bod yn glir sut eir ymlaen â hyn ar gyfer y dysgwyr o gartrefi Saesneg sy'n dechrau mewn lleoliadau neu ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- Mae'r ymgynghoriad yn nodi asesu 'galluoedd' lles dysgwyr. Mae'r term hwn yn aneglur ac ni chaiff ei ddefnyddio mewn manau eraill yn nogfennau'r cwricwlwm.

Dealltwriaeth gyffredin o gynnydd

Er mwyn datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd ac asesu ledled Cymru, mae'r cynigion yn cynnwys dyletswyddau a disgwyliadau ar leoliadau ac ysgolion i ymgymryd â deialog broffesiynol, hyfforddiant a chymorth. Amlinellir y darpariaethau hyn ar dudalennau 10 i 14 y ddogfen ymgynghori.

Cwestiwn 8 - A yw'r disgwyliadau a osodir ar leoliadau ac ysgolion tuag at ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd yn glir?

Aneglur iawn	Ychydig yn aneglur	Ddim yn glir nac yn aneglur	Ychydig yn glir	Clir iawn
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	✓	<input type="checkbox"/>

Esboniwch eich ateb:

Rydym yn cydnabod y symudiadau cadarnhaol yn y canllawiau i sicrhau bod ysgolion yn datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd. Rydym wedi nodi ychydig o bwyntiau y mae angen eu hegluro ymhellach.

5.4. Mae'r paragraff hwn yn nodi'r angen i unigolyn perthnasol roi 'trefniadau ar waith o fewn ysgol / lleoliad i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd'.

Mae'r canllawiau'n mynd ymlaen i nodi (5.5) y dylid cynnal deialog 'o leiaf' unwaith y tymor. Byddai'n fuddiol nodi i bwy mae'r rheoliad hwn yn berthnasol, er enghraifft a fyddai

hyn yn cynnwys cynorthwyr cymorth, staff yn darparu cymorth un-i-un neu staff yn arwain grwpiau ymyrraeth?

Mae'r paragraffau cyntaf yn yr adran ar 'ddealltwriaeth gyffredin o gynnydd' yn amlinellu trefniadau o fewn ysgolion, ac mae'r paragraffau dilynol yn canolbwyntio ar drefniadau 'ar draws ysgolion'. Dylai'r canllawiau fod yn glir ynghylch p'un a oes disgwyliad fod yna gysylltiadau ai peidio rhwng y cyfarfodydd a'r grwpiau hyn.

5.8. Mae'r paragraff hwn yn nodi'n fuddiol nad yw 'grwpiau' ysgol yr un fath â 'chlystyrau ysgol' ac y dylid cynnal deialog broffesiynol yn ehangach na'r clwstwr i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd yn ehangach. Er ein bod yn cefnogi'r farn hon yn llawn ac yn cytuno â manteision ysgolion yn cyfarfod mewn grwpiau sy'n ehangach na'u clystyrau, mae angen gofalu nad yw'r canllawiau'n atal ysgolion rhag cyfarfod yn y modd hwn hefyd. Bydd yn hanfodol fod ysgolion uwchradd a'u hysgolion cynradd partner yn cyfarfod i ystyried eu cwricwla ac yn sicrhau bod cynnydd mewn dysgu yn cael ei gynllunio a'i ddatblygu yn ofalus i sicrhau bod dysgwyr yn parhau i wneud cynnydd effeithiol o un ysgol i'r nesaf.

Mae 5.17 yn nodi y bydd y canllawiau 'yn rhoi cyngor ar y cyfraniadau a'r dystiolaeth fwyaf defnyddiol i gefnogi trafodaethau rhwng ymarferwyr o fewn a rhwng ysgolion'. Mae'n hanfodol nad yw unrhyw ofynion yn y maes hwn yn mynd yn rhy feichus, nac yn gwyrô'r trafodaethau oddi wrth fod yn drafodaeth gefnogol am gynnydd a thuag at atebolrwydd neu brofi effeithiolrwydd cwricwlwm penodol.

Mae 5.17 yn nodi y bydd y canllawiau 'yn egluro'r rôl bwysig y gallai awdurdodau lleol a'r consortia ei chwarae i gefnogi'r broses hon, gan sicrhau bod pob ymarferydd yn cael cyfle i gymryd rhan mewn deialog broffesiynol ystyrion'. Rydym yn cydnabod bod gan swyddogion rhanbarthol lawer i'w gynnig ac y gallant gyfrannu'n fuddiol at y broses hon. Fodd bynnag, dylid nodi eu rôl yn glir. Mae angen gofalu nad yw ffocws a diben y cyfarfodydd hyn yn cael eu heffeithio'n anffafriol gan bresenoldeb pobl eraill ac na chaiff unrhyw ofynion pellach eu gosod ar ysgolion sy'n mynychu, ar wahân i'r rhai yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru.

Cwestiwn 9 – I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd y dyletswyddau a'r disgwyliadau a osodir ar leoliadau ac ysgolion yn cefnogi datblygu a gweithredu dull cyffredin o ran cynnydd?

Cytuno'n gryf	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Cytuno	Cytuno'n gryf
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	✓	<input type="checkbox"/>

Esboniwch eich ateb:

Mae 5.9 yn nodi ei bod yn bwysig i ysgolion uwchradd berthyn i fwy nag un grŵp. Rydym yn cytuno ei bod yn bwysig y dylai pob ysgol uwchradd gwrdd ag ysgolion uwchradd eraill er mwyn helpu datblygu dealltwriaeth gref o gynnydd ar gyfer dysgwyr hyd at 16 oed. Fodd bynnag, bydd y ddealltwriaeth hon a gwelliant dilynol yn cael eu gyrru gan ffocws y cyfarfodydd hyn. Mae angen canllawiau clir ar beth sy'n bwysig yn y cyfarfodydd hyn, ac i'r gwrthwyneb.

Cwestiwn 10 – Wrth ymateb i'r dyletswyddau a'r disgwyliadau sy'n amgylchynu hyrwyddo dealltwriaeth ar y cyd o gynnydd, a oes yna unrhyw ystyriaethau neu heriau ymarferol y dylid eu hadlewyrchu yn y cynigion, yn eich barn chi?

Mae'r canllawiau (5.10) yn cydnabod 'bod rhai lleoliadau yn bwydo i mewn i sawl ysgol gynradd ac na fyddai'n ymarferol ei gwneud yn ofynnol i leoliadau sefydlu prosesau i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd â phob un o'u hysgolion cynradd cysylltiedig'. Mae'r un peth yn wir am rai ysgolion cynradd sy'n partneru â sawl ysgol uwchradd. Byddai'n fuddiol pe bai canllawiau pellach i'r ysgolion cynradd hyn ar y ffordd orau iddyn nhw sicrhau dealltwriaeth gyffredin o gynnydd o'u cwricwlwm i'r nifer wahanol o ysgolion uwchradd y maent yn partneru â nhw (ar wahân i'r ysgol y mae ganddynt gynllun pontio â hi).

Cwestiwn 11 – Pa wybodaeth ychwanegol fyddai'n fuddiol i gefnogi'r broses gyffredinol i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd?

Rydym yn deall ac yn cefnogi awydd Llywodraeth Cymru i ddatblygu methodoleg lle daw cyfarfodydd rhwng ysgolion yn gyfrwng cadarnhaol ar gyfer datblygu dealltwriaeth gref o gynnydd a hyrwyddo gwelliant dilynol. Er mwyn gwneud hyn, credwn y bydd angen mwy o ganllawiau i helpu ysgolion i ddilyn y graddfeydd amser yn (5.5) a sicrhau bod sylwedd y cyfarfodydd hyn yn fuddiol ar gyfer ysgolion.

- Os yw'r rhai y tu allan i ysgolion, er enghraifft swyddogion o gonsortia rhanbarthol, am gael eu cynnwys, yna mae angen canllawiau clir ynglŷn â'u rôl.
- Byddai'n fuddiol amlinellu pa ofynion adrodd ac/neu ofynion cofnodi, os o gwbl, fydd yn cael eu gosod ar y cyfarfodydd hyn. Gallai gofynion rhy feichus yn y maes hwn olygu bod ffocws y cyfarfodydd hyn yn cael ei wyro, ac wedyn efallai na fyddant yn cael yr effaith a fwriadwyd.

Er bod y canllawiau hyn yn nodi'n dda bwysigrwydd cyfarfodydd i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd, mae angen i ganllawiau fod yn glir na ddylai'r trafodaethau hyn fod ynglŷn â chynnydd yng nghynnwys y cwricwlwm yn unig. Mae cynnydd yn digwydd mewn sawl ffurf, fel cymhwyso'r un medrau mewn cyd-destun gwahanol neu dasg waelodol gyda llai o gymorth. Bydd angen i ganllawiau gefnogi'r cyfarfodydd hyn i ystyried yn eang sut mae gwahanol ysgolion yn cefnogi cynnydd, er enghraifft trwy wahanol ddulliau addysgu.

Mae'r cynigion yn amlinellu y dylai lleoliadau ac ysgolion ddod at ei gilydd bob tymor i drafod a chytuno ar ddealltwriaeth ac ymagwedd gyffredin o ran cynnydd.

Cwestiwn 12 – A yw'r awgrym i gyfarfod bob tymor yn briodol a realistig?

Er ein bod yn gallu gweld y gallai ysgolion sy'n cyfarfod â'i gilydd i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd gael effaith gadarnhaol ar yrru gwelliant, bydd yn hanfodol ystyried y problemau a allai wynebu ysgolion bach. Mewn ysgol gynradd fach, er enghraifft un â dau ymarferwr, bydd angen gofalu nad yw deddfwriaeth yn ormod o faich arnynt.

Gallai cyfarfodydd bob tymor fod yn realistig os yw cymorth ac arweiniad yn glir a buddiol yn y maes hwn.

- Bydd angen cymorth ar ysgolion i hwyluso rhyddhau staff yn rheolaidd.
- Bydd angen arweiniad i helpu nodi pwy ddylai fynychu'r cyfarfodydd hyn. Er enghraifft, os arweinwyr yn unig sy'n mynychu gormod o'r cyfarfodydd hyn, efallai na fydd hyn yn sicrhau bod arferion gwell yn cael eu lledaenu'n ddigon eang.
- Bydd angen rhoi cymorth a datblygiad proffesiynol i bob aelod o staff i'w helpu i nodi cynnydd effeithiol, er mwyn iddynt allu cyfrannu at y cyfarfodydd hyn yn bwrpasol.
- Bydd angen i ganllawiau sicrhau bod gan y cyfarfodydd hyn yr ethos cywir: eu bod yn gefnogol ac nid yn gystadleuol; eu bod ar fin datblygu dealltwriaeth well, ac nid am brofi bod cwricwlwm penodol yn well nag un arall.

Pontio

Mae'r cynigion yn amlinellu ystod o ddyletswyddau ar leoliadau sy'n bwydo ac ysgolion cynradd i rannu gwybodaeth er mwyn cefnogi pontio dysgwyr i leoliadau uwchradd. Mae hyn yn cynnwys datblygu cynlluniau pontio ar gyfer pob dysgwr. Amlinellir y darpariaethau ar dudalennau 14 i 16 y ddogfen ymgynghori.

Cwestiwn 13 – A yw'r cynigion yn glir ar ba ysgolion y bydd gofyn iddynt ymgymryd â chynlluniau pontio?

Aneglur iawn	Ychydig yn aneglur	Ddim yn glir nac yn aneglur	Ychydig yn glir	Clir iawn
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Esboniwch eich ateb:

6.10. Mae'r adran hon yn nodi 'O ystyried y caiff y Cwricwlwm i Gymru ei roi ar waith o fis Medi 2022, gyda'r garfan gyntaf o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn trosglwyddo i Flwyddyn 7 o dan y cwricwlwm newydd ym mis Medi 2023, rydym yn ceisio sicrhau ein bod yn deddfu ar gyfer y cynlluniau newydd hyn a'u bod yn cael eu llunio cyn y flwyddyn academaidd 2022/23'. Hefyd, 'y bwriad yw y gall y broses o ddylunio'r cwricwlwm a'i roi ar waith gefnogi parhad dysgu er mwyn i'r garfan gyntaf hon o ddisgyblion Blwyddyn 6, a charfannau wedi hynny, bontio'n effeithiol i Flwyddyn 7'. Yn sgil y cyhoeddiad ar 6 Gorffennaf sy'n rhoi 'hyblygrwydd ychwanegol' o ran gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer dysgwyr ym Mlwyddyn 7, nid yw'r canllawiau'n glir am y disgwyliad ar ysgolion yn y flwyddyn academaidd 2022-2023.

Cwestiwn 14 – I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y bydd y cynigion newydd ar gyfer gwybodaeth a gynigir mewn cynlluniau pontio a'r prosesau sy'n bwydo i'w datblygiad yn cefnogi parhad mewn dysgu a chynnydd yn effeithiol?

Cytuno'n gryf	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Cytuno	Cytuno'n gryf
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Esboniwch eich ateb:

Rydym yn cefnogi'n llwyr nod Llywodraeth Cymru i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cynorthwyo'n effeithiol wrth iddynt drosglwyddo rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Hefyd, rydym yn cydnabod ac yn cefnogi'n llawn y nod i sicrhau bod cynnydd mewn dysgu ac addysgu yn cael ei ddatblygu a'i gynnal, fel nad yw cynnydd dysgwyr yn cael ei rwystro yn y cyswllt hwn yn eu haddysg. Fodd bynnag, rydym yn nodi ychydig iawn o faterion yn y cynigion presennol.

- Mae paragraff 6.7 yn nodi'n dda y dylai cynlluniau pontio 'ystyried parhad dysgu, sut y caiff hynny ei gefnogi drwy addysgu a dysgu wrth iddo gael ei ddatblygu'. Mae hwn yn bwynt pwysig, gan fod trosglwyddo llwyddiannus yn dibynnu nid yn unig ar barhad mewn cynllunio, ond addysgu hefyd. Fodd bynnag, pan mae paragraff 6.11 yn rhestru gofynion cynlluniau pontio, ni chaiff addysgu ei grybwyll yn glir fel ystyriaeth.
- Mae paragraff 6.11 yn nodi y bydd yn ofynnol i Gyrrff Llywodraethol gynnwys mewn cynlluniau pontio, 'Sut y byddant yn sicrhau parhad dysgu i ddisgyblion Blwyddyn 6 sy'n symud i Flwyddyn 7, drwy'r gwaith o ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm'. Fodd bynnag, mae rhai ysgolion a chlystyrau eisoes yn mynd y tu hwnt i'r gofyniad hwn; er enghraifft, maent yn dechrau gwaith trosglwyddo ym Mlwyddyn 5 (neu'n is) ac/neu yn ei ymestyn y tu hwnt i Flwyddyn 7. Pan fydd yr arferion buddiol hyn yn bodoli, ni fyddem eisieu i ddeddfwriaeth newydd eu rhwystro. Byddem yn awgrymu nodi bod pontio ar gyfer Blwyddyn 6 i Flwyddyn 7 yn isafswm. Hefyd, gallai canllawiau pellach ddangos enghreifftiau o sut y gellir ymestyn trosglwyddo mewn modd buddiol y tu hwnt i'r grwpiau blwyddyn hyn.

Cwestiwn 15 – Wrth ymateb i'r dyletswyddau a'r disgwyliadau o amgylch pontio, a oes yna unrhyw ystyriaethau neu heriau ymarferol y dylid eu hadlewyrchu yn y cynigion, yn eich barn chi?

Mae Estyn yn cydnabod ei bod yn bwysig i arferion trosglwyddo ystyried lles dysgwyr. Fodd bynnag, mae paragraff 6.7 yn nodi y dylai cynlluniau ystyried dysgwr a'i 'iechyd meddwl a'i lesiant emosiynol'. Fel y nodwyd yn flaenorol, rydym yn pryderu ynglŷn â'r gofyniad ymddangosiadol i athrawon asesu ieched meddwl dysgwyr, a byddem yn awgrymu y dylid ailystyried y term hwn.

Mae paragraff 6.8 yn nodi, yn unol â'r trefniadau presennol, 'er y bydd gan yr ysgol uwchradd un cynllun pontio, mae'n rhaid i'r cynllun ystyried y darpariaethau gwahanol ymhlith ei hysgolion cynradd bwydo a darparu ar gyfer hynny.' Yn gysylltiedig â pharagraff 6.13 sy'n nodi y dylid adolygu cynlluniau i sicrhau bod trefniadau'n parhau'n gyfoes, gallai hyn roi baich sylweddol ar ysgolion uwchradd. Fel arfer, mae trefniadau pontio ysgolion uwchradd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gysylltu ag ystod o ysgolion cynradd. Os bydd yr ysgolion cynradd hyn yn newid ac/neu'n adolygu eu cwricwlwm ar wahanol adegau, gallai fod yn ofynnol i'r ysgol uwchradd adolygu ac addasu eu cynlluniau yn rheolaidd.

Adrodd i rieni a gofalwyr

Hefyd, mae'r cynigion yn cynnwys darpariaethau ar adrodd am gynnydd dysgwyr wrth rieni a gofalwyr. Amlinellir y darpariaethau hyn ar dudalennau 17 i 20 y ddogfen ymgynghori.

Cwestiwn 16 – A yw'r disgwyliadau a osodir ar leoliadau ac ysgolion ynghylch adrodd wrth rieni a gofalwyr yn glir?

Aneglur iawn	Ychydig yn aneglur	Ddim yn glir nac yn aneglur	Ychydig yn glir	Clir iawn
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Esboniwch eich ateb:

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd datblygu a chynnal perthnasoedd cadarnhaol gyda rhieni a gofalwyr ac yn rhoi cefnogaeth lawn i symudiadau Llywodraeth Cymru i gefnogi 'cyfathrebu dwy ffordd' rhwng yr ysgol a'r cartref. Fodd bynnag, nid yw'r adran hon ar adrodd bob amser yn ddigon clir.

- Yn nogfen y canllawiau, mae paragraff 7.3 yn nodi 'Ar hyn o bryd, mae'r ddeddfwriaeth ond yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gyfathrebu â rhieni/gofalwyr a disgyblion sy'n oedolion ar ffurf adroddiad ysgrifenedig ar ddiwedd y flwyddyn'. Fodd bynnag, nid yw deddfwriaeth bresennol yn nodi diwedd blwyddyn ysgol, ond mae'n datgan 'rhaid i'r ysgol drefnu bod adroddiad pob blwyddyn ysgol ar gael'. Gallai hyn achosi dryswch gan nad yw pob ysgol yn aros tan ddiwedd y flwyddyn ar hyn o bryd i anfon adroddiad ysgrifenedig allan.
- 7.8. Mae'r paragraff hwn yn nodi y bydd ysgolion yn darparu 'crynodeb byr o'i gynydd o ran dysgu ar draws y cwricwlwm cyfan'. Bydd angen eglurder pellach i helpu arweinwyr ac ymarferwyr ddeall beth mae'r 'cwricwlwm cyfan' yn ei olygu, yn enwedig o ran disgyblion hŷn mewn ysgolion uwchradd a fydd wedi gwneud dewisiadau am yr hyn y maent yn ei astudio.
- Mae 7.10 yn nodi 'Rydym hefyd yn credu y dylai'r trafodaethau a chanlyniadau prosesau sydd i'w rhoi ar waith gan ysgolion o dan y Cyfarwyddyd adran 57, Dealltwriaeth Gyffredin o Gynydd, gael eu hystyried fel rhan o'r ystyriaethau cyffredinol o gynydd dysgwyr ac felly ddylanwadu ar yr adborth i rieni'. Nid yw'n glir beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol.
- Mae paragraff 7.11 yn amlinellu y bydd ysgolion yn darparu o leiaf un diweddariad bob tymor. Bydd angen i ganllawiau fod yn glir ynglŷn â beth yw 'diweddariad'. Er enghraifft, a fydd yr adroddiad a nodwyd yn 7.7 yn cyfrif fel un o'r diweddariadau hynny?

Cwestiwn 17 – Wrth ymateb i'r dyletswyddau a'r disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag adrodd i rieni a gofalwyr, a oes yna unrhyw ystyriaethau neu heriau ymarferol y dylid eu hadlewyrchu yn y cynigion, yn eich barn chi?

Mae paragraff 7.8 yn nodi y dylai ysgolion adrodd ar 'iechyd meddwl' dysgwyr. Er ein bod yn rhoi cefnogaeth lawn i bwysigrwydd rhannu negeseuon am les dysgwyr, fel rhan bwysig o rannu gwybodaeth rhwng y cartref a'r ysgol, mae gofyn bod ysgolion yn gwerthuso ac yn adrodd ar iechyd meddwl dysgwyr yn ofyniad na ddylid ei roi ar athrawon.

Mae'r canllawiau hyn yn nodi'n dda fod cyfathrebu'n effeithiol â rhieni / gofalwyr yn barhaus yn ffordd bwysig i feithrin perthnasoedd cadarnhaol. O'r herwydd, gallai fod yn fuddiol cydnabod bod adrodd bob tymor yn lleiafswm o ran gofyniad. Bydd hyn yn annog yr ysgolion hynny y mae ganddynt eisoes drefniadau mwy hyblyg a llyfn i barhau ag arferion effeithiol.

At ei gilydd, gan nad oes unrhyw amod i ysgolion ddarparu adroddiad ysgrifenedig ar unrhyw adeg o dan y newidiadau arfaethedig hyn, byddai'n fuddiol er arweiniad nodi'n gryf

ei bod yn bwysig i ysgolion gysylltu'n agos â rhieni i gael gwybod eu dymuniadau, er enghraifft os ydyn nhw eisiau adroddiad ysgrifenedig.

Hoffem weld canllawiau pellach yn canolbwyntio ar y modd y gallai ysgolion ddatblygu deialog fwy dynamig a pharhaus â rhieni / gofalwyr.

Mae'r cynigion yn amlinellu y dylai lleoliadau ac ysgolion gyfathrebu'n rheolaidd â rhieni a gofalwyr.

Cwestiwn 18 – A yw'r awgrym i gyfathrebu â rhieni a gofalwyr bob tymor yn briodol a realistig?

Mae Estyn yn cefnogi'n llwyr ddymuniaid Llywodraeth Cymru i wella cyfathrebu rhwng rhieni / gofalwyr a'r ysgol. Gallwn weld manteision cyfathrebu ac ymgysylltu parhaus â rhieni / gofalwyr a disgyblion sy'n oedolion o ran cynnydd. Fodd bynnag, bydd angen i ganllawiau pellach fod yn glir i sicrhau nad yw'r diweddariadau tymhorol hyn yn rhoi gormod o faich ar athrawon. Mae ein hadolygiad thematig 'Cyfathrebu rhwng ysgolion a rhieni plant oedran ysgol' (Mehefin 2018) yn darparu gwybodaeth ac arweiniad a allai gefnogi'r gwaith hwn yn fuddiol.

Nid yw cynnydd dysgwyr yn llinol, ac efallai na fydd yn amlwg dros raddfeydd amser byrrach. O'r herwydd, bydd angen canllawiau clir ar natur adrodd i sicrhau na ddisgwylir bod pob diweddariad tymhorol yn ceisio adrodd am gynnydd cyson.

Dylai'r wybodaeth a ddarperir i rieni a gofalwyr gynnwys crynodeb byr o les a chynnydd dysgwr, yn ogystal â chyngor ar sut gall rhieni a gofalwyr gefnogi cynnydd. I gael rhestr lawn o'r wybodaeth y dylid ei chynnwys mewn gohebiaeth, gweler tudalen 18 y ddogfen ymgynghori.

Cwestiwn 19 – A fyddai rhannu'r mathau o wybodaeth a amlinellir yn y cynigion gyda rhieni a gofalwyr yn cefnogi dysgu a chynnydd?

Byddai'n fuddiol i ganllawiau nodi ffyrdd effeithiol i rannu cynnydd, sy'n ddefnyddiol ar gyfer rhieni. Er enghraifft, ni fyddem eisiau gweld arferion fyddai'n lleihau elfennau o'r cwricwlwm yn niferoedd ac wedyn yn adrodd ar gynyddu niferoedd gan nad yw hyn yn rhoi gwybodaeth fuddiol i rieni / gofalwyr na dysgwyr am gynnydd a'r camau nesaf.

Mae paragraff 7.5 yn cydnabod 'nad yw'r ffocws cul hwn ar un agwedd ar gyfleu cynnydd dysgwr yn cefnogi'r fath gyfathrebu ac ymgysylltu dwy ffordd effeithiol a ragwelir ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru'. Hefyd, mae 7.6 yn nodi bod angen dull 'sy'n hwyluso cyfathrebu ac ymgysylltu dwy ffordd ac sydd yn wir yn galluogi'r rhiant/gofalwr/disgybl sy'n oedolyn i chwarae rôl yng nghynnydd y dysgwr'. Fodd bynnag, nid yw'n glir o'r ddogfen arweiniad hon beth yw rôl rhieni / gofalwyr yn yr arferion adrodd arfaethedig. Er enghraifft,

- A fydd cyfle i rieni ymateb i unrhyw adroddiadau, a'u trafod (yn enwedig adroddiadau ysgrifenedig)?
- A fydd rhieni / disgyblion yn cael unrhyw gyfle i gyfrannu at adroddiadau?

laith

Cwestiwn 20 – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r ddeddfwriaeth hon yn ei chael ar y Gymraeg, yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

Mae gan y cynigion hyn y potensial i gynyddu'r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg os ydynt yn cael eu monitro a'u hadolygu'n ofalus. Fodd bynnag, gallai'r canllawiau ddatgan yn gliriach y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal i roi statws cyfartal i'r ddwy iaith. Byddai hyn yn cael effaith gadarnhaol ac yn rhoi cyfleoedd cynyddol i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

O ran dyletswyddau a disgwyliadau a osodir ar leoliadau ac ysgolion i gefnogi dilyniant dysgwyr yn effeithiol yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru, mae'n hanfodol fod y Gymraeg yn cael ei hystyried a'i hamlygu yma. Mae dilyniant mewn iaith yn hanfodol i sicrhau parhad a diwallu angen polisi Llywodraeth Cymru 'Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg'.

Cwestiwn 21: Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid ffurfio neu newid y ddeddfwriaeth hon, er mwyn cael:

- i) effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol

Mae'r angen am asesiadau dechreuol trwy gyfrwng y Gymraeg, a'u hargaeledd, yn bwysig. Rhaid i'r unigolyn perthnasol sy'n gyfrifol am sicrhau bod 'asesiad dechreuol' yn cael ei gynnal ar gyfer pob dysgwr neu blentyn pan gaiff ei gofrestru mewn ysgol neu leoliad cyfrwng Cymraeg allu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel briodol hefyd i sicrhau cywirdeb, tegwch a chydaddoldeb.

Wrth asesu ble mae plentyn o ran y continwmm 3-16 ar unrhyw adeg wrth ddechrau mewn ysgol neu leoliad fel y nodwyd yn y canllawiau, bydd yn bwysig fod yr holl ddysgwyr / lleoliadau yn gallu defnyddio dogfennau, asesiadau a chanllawiau dwyieithog i sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni'n gywir, yn deg ac yn gyfiawn.

O ran dysgwyr sy'n trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, credwn fod angen i drefniadau ar gyfer parhad iaith fod yn glir ym mhob cynllun trosglwyddo.

Mae angen trefnu bod dysgu proffesiynol a deialog broffesiynol ar draws yr holl leoliadau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae angen i arweinwyr ac athrawon allu defnyddio dogfennau a chanllawiau dwyieithog i gefnogi cynnydd plant a dysgwyr sy'n siarad Cymraeg mewn iaith.

Mae angen rhoi tegwch i'r Gymraeg i sicrhau bod dysgwyr yn gallu pontio rhwng yr holl leoliadau nas cynhelir a ariennir, ysgolion cynradd ac uwchradd, lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol ac UC'Dau yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Mae'n hanfodol bod trefniadau trosglwyddo yn cael eu hadolygu ac yn addas at eu diben i gefnogi cynnydd effeithiol mewn iaith ar hyd y continwmm dysgu ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae cyfathrebu dwyieithog yn hanfodol o ran rhoi sicrwydd i rieni a gofalwyr ynghylch cynnydd eu plentyn. Rhaid i hyn fod yn glir mewn canllawiau.

Cwestiwn 22 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd amdanynt.

Rydym yn cydnabod ac yn cefnogi'n llwyr ymdrech Llywodraeth Cymru i sicrhau bod asesu'n cael ei weld yn rhan annatod o ddysgu ac addysgu, ac yn cefnogi cynnydd effeithiol dysgwyr. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod bod hwn yn faes lle mae angen mwy o gymorth ac arweiniad ar arweinwyr ac ymarferwyr i sicrhau bod hyn yn cael ei wireddu. I gynnal y ffocws buddiol hwn ar asesu, rydym yn ansicr ynghylch mantais cynnwys ystod o faterion ac arferion ehangach mewn 'trefniadau asesu', fel adrodd i rieni a throsglwyddo. Er bod y naill a'r llall o'r arferion hyn yn elwa ar y ffaith fod gan ysgolion ddealltwriaeth gref o gryfderau dysgwyr a'u meysydd i'w datblygu, nid ydynt yn rhan o asesu yn uniongyrchol. Gallai eu gosod o fewn yr un canllawiau gyfrannu ymhellach at gamddealltwriaeth arweinwyr ac ymarferwyr yn y maes pwysig hwn.

Credwn fod angen i unrhyw ganllawiau a gyflwynir i gefnogi deddfwriaeth asesu fod yn gryno, yn glir a bod iddynt ffocws, gydag enghreifftiau lle bo'n briodol.

Mae atebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych aros yn ddiennw, ticiwch yma:

